## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5 (CAPEL CURIG, BWRDEISTREF SIROL CONWY) (GWAHARDD CERBYDAU LLYDAN) 2026

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A5, neu gerllaw iddi, i'r de o Gapel Curig, Bwrdeistref Sirol Conwy.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro gerbydau sy'n 3 metr o led neu'n lletach rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd yng Nghapel Curig sy'n ymestyn o'r fynedfa i Gronfa Ddŵr Ffynnon Llugwy, i'r gorllewin o Gapel Curig hyd at yr arwydd terfyn cyflymder 30mya ger Pont Cyfyng, i'r dwyrain o Gapel Curig.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau llydan sy'n teithio tua'r de yw mynd ar yr A5 tua'r gogledd i Gyffordd 11 yr A55, yr A55 tua'r dwyrain i Gyffordd 19 a'r A470 tua'r de i Fetws-y-coed i ailymuno â'r A5 tuag at Gapel Curig. Bydd cerbydau llydan sy'n teithio tua'r gogledd yn dilyn y llwybr arall uchod i'r gwrthwyneb.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 19 Chwefror 2026. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol yn ysbeidiol hyd 30 Ebrill 2026 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r gwaharddiad dros dro fod yn weithredol. Er hynny, bydd y Gorchymyn yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf, rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A5 TRUNK ROAD (CAPEL CURIG, CONWY COUNTY BOROUGH) (TEMPORARY PROHIBITION OF WIDE VEHICLES) ORDER 2026

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A5 trunk road south of Capel Curig, Conwy County Borough.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit vehicles with a width of, or greater than, 3 metres from proceeding on the length of trunk road at Capel Curig that extends from the entrance to Ffynnon Llugwy Reservoir, west of Capel Curig to the 30mph speed limit sign near Pont Cyfyng east of Capel Curig.

The alternative route for southbound wide vehicles is via the northbound A5 to Junction 11 of the A55, the A55 eastbound to Junction 19 and the A470 southbound to Betws-y-Coed to rejoin the A5 towards Capel Curig. Northbound wide vehicles will follow the above alternative route in reverse.

The Order will come into force on 19 February 2026, and the temporary prohibition is expected to operate intermittently until 30 April 2026 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the temporary prohibition is only expected to operate during the period specified above the Order will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled, or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government